

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Mehefin 2013
yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian**

Yn Bresennol:

| | |
|------------------------------------|--|
| Y Cyng. A M Jones | Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle |
| Mr Stuart Law | Cyfarwyddwr Safle – Wylfa |
| Mr R Foxhall | Pŵer Niwclear Horizon |
| Y Cyng. J Griffith | Cyngor Ynys Môn – Ward Talybolion |
| R Howells | UK Nuclear Restoration |
| Y Cyng. KP Hughes | Cyngor Ynys Môn – Ward Talybolion |
| Y Cyng. W T Hughes | Cyngor Ynys Môn – Ward Twrcelyn |
| Y Cyng. R Hughes | Cyngor Cymuned Mechell |
| Michelle Humphreys | Safle Magnox Wylfa |
| R Huston | Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear |
| Y Cyng. LI M Hughes | Cyngor Ynys Môn – Ward Talybolion |
| Y Cyng. Elfed Jones | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Jean Jones | Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch |
| M Saunderson | Cynrychiolydd o Gydgyngor Safle Wylfa |
| Mr Mark Thornton | Rheolwr Gwastraff, Safle Wylfa |
| Mrs Karin White | Safle Magnox Wylfa |
| Richard Cowell | Safle Magnox Wylfa |
| Claire MacLean | Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ran y Tîm Datgomisiynu |
| Y Cyng. Julia Dobson | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| T H Poole | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Y Cyng. J H Jones | Cyngor Cymuned Mechell |
| Y Cyng. Gareth Winston Roberts OBE | Is-gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle |
| Alan Hall | Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru |
| Gemma Roberts | Swyddog Cynllunio Argyfwng, Dŵr Cymru |
| Gordon Warren | Cymdeithas Trigolion Porth Llechog |

Ymddiheuriadau

| | |
|------------------------|---|
| Dr John Idris Jones | Magnox Wylfa/Ynys Ynni Môn |
| Mr Richard Parry Jones | Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dylan Williams | Adran Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Linda Jones | Swyddog Rhaglen Ynys Ynni, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ieuan Wyn Jones AC | Aelod Cynulliad Ynys Môn |
| Albert Owen AS | Aelod Seneddol Ynys Môn |

| | |
|----------------------------|--|
| Paul Kennedy | Tîm Ymbelydredd, Adran Diogelwch Cemegol Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Dave Clarke | Uwch Arolygydd Safle, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – Diogelwch Niwclear Sifil |
| Dr Tom Davenport | Arolygydd Safle, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Wylfa |
| Aimee Kentish | Rheolwr Cyfathrebu Magnox – Wylfa/Maentwrog/Trawsfynydd |
| Saranne Postans | Rheolwr Cyfathrebu Magnox |
| Alan Smith | Horizon Nuclear Power |
| Melanie Wymer | Cwmni Ymddiriedolaeth Bodorgan Cyf |
| Cdr David Alexander | Cymdeithas y Tirfeddianwyr |
| Steve Roberts | Aelod o'r Cyhoedd |
| Arthur Jones | Undeb Amaethwyr Cymru |
| John Jones | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Prif Arolygydd Dros Dro | Simon Barrasford, Dosbarth Ynys Môn, Heddlu Gogledd Cymru |
| Yr Arolygydd Guy Blackwell | Arolygydd Dosbarth ar gyfer Ynys Môn, Heddlu Gogledd Cymru |
| Fred Brookes | Rheolwr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd, Safle Wylfa |

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniodd yr ymddiheuriadau uchod. Croesawodd yn arbennig Mr Robbie Huston (yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear) a Mr Richard Howells (Cwmni Cais RSRL - UK Nuclear Restoration); Mr Mark Saunderson (Cynrychiolydd o Gydgyngor – Magnox), yn ogystal â'r aelodau newydd o'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle a etholwyd yn ddiweddar i Gyngor Sir Ynys Môn. Dymunai'r Cadeirydd ddiolch hefyd i Mr Trevor Roberts a ymddeolodd yn ddiweddar o'r Grŵp ar ôl gwasanaethu ar y pwyllgor am sawl blwyddyn. Cytunodd y cyfarfod y dylid ysgrifennu ato yn dymuno pob hwyl iddo yn y dyfodol.

2. Cynigiwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth y Grŵp fel cofnod cywir gan y Cynghorydd Gareth Winston Roberts ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Will Hughes. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

3. **Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle**

Ar 28 Rhagfyr 2012, cafwyd achos lle y cwmpodd gweithiwr o uchder ac mae Cynllun Gwella Diogelwch Confensiynol wedi'i roi ar waith. Ymchwiliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'r digwyddiad gan gadarnhau nad oedd yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach a chanmolwyd Magnox ar ein hymchwiliad trylwyr. O ganlyniad i hyn, gwnaed cyflwyniadau diogelwch ar draws y safle cyfan, mae Peiriannwr Diogelwch Diwydiannol wedi cael ei secondio o Orsaf Bŵer Bradwell, ac mae bagiau rhwyll eisoes wedi'u prynu ar gyfer cario offer i fyny ac i lawr ysgolion. Dychwelodd yr unigolyn a gwmpodd o'r cludwr i'r gwaith yr wythnos diwethaf.

Nododd Wylfa allbwn cynhyrchu eithriadol o 3.272 TWawr yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Sicrhawyd hyn gan ddulliau rheoli gweithredol ardderchog y broses o drosglwyddo rhwng adweithyddion (IRX) o Adweithydd 2 i Adweithydd 1 a dyblu'r gyfradd ail-lenwi â thanwydd. Fel rhan o raglen IRX, trefnwyd bod chwe elfen o danwydd yn cael eu symud o Gell Storio Sych 2 ond ni chanfuwyd unrhyw elfennau yn y lleoliad perthnasol lle canfuwyd chwe elfen ar wall yn flaenorol. Yn ogystal â hyn, ddiwedd Mawrth cafwyd Trip Adweithydd ond dychwelodd y pŵer yn brydlon ddeuddydd yn ddiweddarach.

Mae'r broses o wagio Cell Storio Sych yn mynd rhagddi'n barhaus. Defnyddir camerâu i gadarnhau bod y Gell Storio Sych yn wag. Fodd bynnag, yn ystod y dasg hon, darganfuwyd bod elfennau o danwydd ar y safle o hyd. Mae'r holl reoliadau a rheolau gweithredu yn parhau i fod ar waith o ran y safle. Y cam nesaf yw cadarnhau yn union sawl elfen o danwydd sydd ar ôl a chaiff hyn ei gadarnhau i chi yn y cyfarfod nesaf.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gyfer Datgomisiynu gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ar 7 Mai a bydd yn mynd rhagddo tan 9 Awst.

Yn sgil asesu digwyddiad Fukushima, mae injan dân newydd wedi cael ei phrynu am £250,000. Mae'r offer newydd hwn yn cael ei storio mewn Adeilad Offer Argyfwng y Tu Hwnt i Ddyluniad newydd sbon ar y safle.

Cafodd Maentwrog un o'i flynyddoedd gorau erioed o ran cynhyrchu, oherwydd y gwanwyn gwlyb a brofwyd, yn ôl pob tebyg. Wythnos nesaf, mae cyfnod segur o 4 wythnos wedi'i drefnu ar gyfer un tyrbîn a 9 wythnos ar gyfer yr ail dyrbîn.

Ymwelodd Cymdeithas Gweithredwyr Niwclear y Byd (WANO) â Wylfa unwaith eto yn dilyn ei harolygiad ym mis Gorffennaf 2011 pan nodwyd 13 o feysydd ar gyfer gwella. Roedd yr ymweliad hwn i adolygu'r gweithdrefnau a ddiweddarwyd a chafodd y safle asesiad da ar y cyfan.

Cynhaliodd y staff ddigwyddiad codi arian a chodwyd £1,226.57 tuag at Ymchwil Canser. Roedd Gardd Cestyll unwaith eto ar agor i'r cyhoedd dros benwythnos gŵyl y banc Mai a rhoddwyd yr elw a wnaed o'r taliadau mynediad i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI).

Cwestiynau

Gofynnodd Tom Conway am y gwall yng Nghell Storio Sych 4 a gofynnodd p'un a oeddent wedi croeswrio â'r cofnodion tanwydd. Mewn ymateb, dywedwyd wrtho mai gwall ydoedd, fwy na tebyg yn ystod y broses o lwytho'r fflag a bod y cofnodion tanwydd yn nodi nad oedd unrhyw beth yno. Mae'r gwall hwn yn debygol o fod wedi digwydd ar ddechrau'r broses gomisiynu. Aeth Jac Jones yn ei flaen i holi a oedd y tanwydd mewn cyflwr da neu a oedd wedi'i ddifrodi. Yn ôl y ffilm camera, mae'r tanwydd yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr perffaith. Fodd bynnag, nid yw'r elfen wedi'i nodi – dim ond sylwi arni o uchder. Cynhelir ymchwiliadau pellach a rhoddir adborth i'r cyfarfod hwn.

Gofynnodd Tom Conway hefyd am y broses o gyhoeddi'r Adroddiad ar yr Asesiad Amgylcheddol. Atebodd Claire MacLean drwy ddweud bod pecynnau wedi'u hanfon at bob llyfrgell leol a bod yr holl ddogfennau ar gael ar-lein gyda chyfle i gyflwyno sylwadau. Holodd

Gareth Winston Roberts a fyddai modd anfon y pecynnau at gynghorau cymuned fel y gellid eu trafod mewn cyfarfodydd. Cadarnhawyd bod yr adroddiad wedi'i anfon at yr holl gynghorau cymuned lleol ac at Gyngor Sir Ynys Môn. Addawodd y Cadeirydd hefyd y byddai'n anfon copi caled o'r Adroddiad ar yr Aseiad Amgylcheddol at Tom Conway.

4. Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Cymeradwyodd y Cadeirydd ei adroddiad fel ag yr oedd, gan amlinellu ei ddyletswyddau a'r gweithgareddau y mae wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf. Nid oedd unrhyw gwestiynau.

5. Diwygio Cylch Gorchwyl y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Cyflwynwyd papur ar gyfer gwybodaeth am gynnig i newid yr Aelodau sy'n Pleidleisio. Daeth y cynnig hwn yn sgil y newidiadau i'r wardiau etholiadol. Nodwyd bod dau gynrychiolydd o'r cynghorau plwyf ond dim ond un yn Amlwch. Câi hyn ei ddiwygio i ddau. Roedd pawb o blaid y diwygiadau.

6. Y Diweddaraf gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Aeth Robbie Huston yn ei flaen i gyflwyno diweddariad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear. Pe bai angen atebion ar unrhyw gwestiynau manwl, gellid cyfeirio'r rhain yn ôl a chât ymateb ei ddarparu cyn gynted â phosibl.

Ym mis Chwefror, dechreuodd y drafodaeth ar gyfer proses gystadlu Sefydliad Rhiant Gorff Energy Solutions. Bydd y timau cais yn gallu casglu gwybodaeth o'r cyfarfodydd a'r ymweliadau â'r safle er mwyn iddynt ymgyswrtio â'r heriau ac er mwyn llywio eu cynigion tendr am y contract £7 biliwn. Y pedwar consortiwm yw 1) Reactor Site Solutions; 2) Babcock; 3) CAS Restoration; 4) Areva & Circo. Cafodd y rhanddeiliaid gyfle i gwrdd â'r timau cais mewn digwyddiad yng Nghymru a gynhaliwyd yn Llandudno fis diwethaf. Dyddiadau mynegol yw'r rhain o hyd ond maent yn rhoi syniad o'r amserlen:

| | |
|--------------------|------------------------------------|
| Hydref 2013 | gwahoddiad ffurfiol i dendro. |
| Tachwedd 2013 | dyddiad dychwelyd y tendr. |
| Mawrth 2014 | gwerthuso a chyhoeddi. |
| Ebrill – Awst 2014 | cytundeb contract a chyfnod pontio |
| Medi 2014 | dyddiad dechrau |

O ran Rheoli Gwastraff Ymbelydrol a'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF), mynegodd tair cymuned yn Cumbria ddiddordeb a'r cam nesaf oedd astudiaeth bwrdd gwaith o'r ddaeareg. Fodd bynnag, pleidleisiodd Cyngor Sir Cumbria yn erbyn y cam nesaf, felly mae'r broses bresennol wedi dod i ben ac mae'r Llywodraeth yn chwilio am safleoedd addas o hyd a gaiff eu gwirfoddoli gan y cymunedau eu hunain.

Mae tri safle wedi'u nodi fel ardaloedd storio posibl ar gyfer Gwastraff Lefel Ganolradd – Hinckley, Bradwell a Thrawsfynydd. Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn cael eu hystyried yn ateb parhaol. Mesur dros dro ydynt, yn fwy na dim, hyd nes y datblygir y GDF.

Cynhelir digwyddiad blynyddol y Gadwyn Gyflenwi yn EventCity, Manceinion ar 13 Tachwedd. Yn sgil ei boblogrwydd, mae'r digwyddiad wedi symud i leoliad mwy o faint eleni a all ddal hyd at 1,000 o gynrychiolwyr a 200 o arddangoswyr. Ar y cyd â'r digwyddiad hwn, mae'r Llywodraeth yn ymdrechu'n fwy byth i gefnogi twf economaidd mewn busnesau bach a chanolig. Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig gyda tharged o sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn cyfrif am 20% o holl gontractwyr y gadwyn gyflenwi erbyn 2015 (sy'n cyfateb i tua £300 miliwn y flwyddyn).

7. Y Diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Rhodddwyd adroddiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, gan fod yr Arolygydd i ffwrdd ar wyliau blynyddol. Gellir anfon cwestiynau am yr adroddiad ymlaen ato os bydd angen.

8. Y Diweddaraf gan Is-grŵp Gwastraff Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Cyfarfu'r Grŵp ar 22 Mai 2013. Trafodwyd yn y cyfarfod hwnnw'r malurion crydiad yng Nghell Storio Sych 4, ac yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, dynodwyd y malurion hyn yn wastraff argadwedig ac nid tanwydd (yn unol â chynigion y safle). Trafodwyd hefyd y strategaeth ansawdd tir a Gwastraff Lefel Ganolradd.

Mae risg bosibl i weithrediadau ynghylch y Llosgydd Gwastraff Lefel Isel o ganlyniad i'r Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar Allyriadau. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd am reoleiddio'r gweithgarwch hwn yn unol â llosgi diwydiannol ar raddfa fawr.

9. Y Diweddaraf ar gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox

Yn 2012/13, dyfarnodd Wylfa £44,260 o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd i 26 o sefydliadau lleol fel y nodir eu manylion ar y rhestr o fuddiolwyr sy'n rhan o'r pecyn cyn y cyfarfod. Mae naw sefydliad wedi cael arian hyd yma yn 2013/14, sy'n gyfwerth â £13,080.

Cafodd Coleg Meirion Dwyfor Dolgellau gyfraniad o £360,000 at Ganolfan Peirianeg ac Amgylchedd Adeiledig Dolgellau a briodolir i safle Trawsfynydd.

10. Holi ac Ateb

Mynegodd Jac Jones ei bryder nad oedd unrhyw gynrychiolydd yn bresennol o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear. Ychwanegodd nad oedd unrhyw beth dadleuol yn yr adroddiad ond nad oedd am osod cynsail lle nad yw'r Swyddfa hon yn anfon cynrychiolydd i gyfarfod y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Cytunwyd y câi ei sylwadau eu cyfleu i'r Swyddfa er mwyn iddi allu nodi dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol yn ei dyddiadur.

Holwyd hefyd pa drefniadau sydd ar waith gyda phrentisiaid ar gyfer Wylfa B a faint o hyfforddiant a gaiff ei ddarparu. Mae'n hollbwysig bod pobl leol yn cael y cyfle i ddydsu

sgiliau newydd i baratoi ar gyfer Wylfa B. Soniwyd am Prentis Menai ond yr hyn y mae'n rhaid i ni ei holi yw beth sy'n digwydd ar ôl iddynt orffen eu prentisiaeth. Cytunwyd y byddai'n fuddiol i Dr John Idris Jones roi briffiad ar waith yr Ynys Ynni i roi darlun llawn. Nodwyd hefyd pa mor bwysig oedd sicrhau nad oedd cyfnod segur rhwng diwedd y broses gynhyrchu yn Wylfa a dechrau'r gwaith adeiladu newydd. Cadarnhaodd Stuart Law i'r cyfarfod eu bod yn derbyn prentisiaid ac yn eu hyfforddi o hyd. Fodd bynnag, ni ellir cefnogi hyn am byth, ond gorau po hiraf y gall Wylfa barhau i gynhyrchu er mwyn cefnogi'r prentisiaid hyn.

Gofynnodd Gareth Winston Roberts a oedd effaith Fferm Wynt Rhiannon (cynllun 500MW) ar gysylltiad y grid cenedlaethol wedi cael ei chrybwyll gyda Horizon. Cytunodd Richard Foxhall o Horizon Nuclear Power i drafod hyn y tu allan i'r cyfarfod.

11. Dyddiad y cyfarfodydd nesaf

5 Medi 2013

12 Rhagfyr 2013

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15pm.